

Paratowch bortffolio (fel petach yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

05 January 2020 18:39

Enw: Molly Elliott

Rhif myfyriwr: 1904277

Llwybr: TAR Cynradd

Dolen i nodiadur OneNote: <\\fsusers\elliogm\Documents\%homedir%\Aseiniad> 6008

Cyflwyniad

05 January 2020 18:44

Bydd yr aseiniad yma yn canolbwyntio ar adfyfrio beirniadol ar Brofiad Addysgu Proffesiynol (PAP) 1. Dosbarth lleoliad PAP 1 oedd dosbarth Blwyddyn 1 yn ysgol gynradd Gymraeg ar gyrion canol tref yn ne ddwyrain Cymru (ESTYN, 2016). Bydd yr aseiniad yn drafod tair o'r egwyddorion addysgegol Donaldson (2015), gan ddefnyddio tystiolaeth o sut cafodd y tair egwyddor addysgegol eu gweithredu yn PAP 1. Yr egwyddor addysgegol cyntaf bydd yn yr aseiniad bydd mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu. Yr ail egwyddor addysgegol bydd, drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer. Yr egwyddor addysgegol olaf bydd, mae addysgu a dysgu da'n golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Llenyddiaeth

05 January 2020 18:44

Mae asesu ar gyfer dysgu yn hynod o ddefnyddiol i athrawon oherwydd mae'n eu galluogi i fod yn ymwybodol o ba fath o ddealltwriaeth sydd gan y dosbarth cyn, yn ystod neu ar ôl gwrs (Hattie, 2012, tud. 53). Mae gan asesu ar gyfer dysgu 4 elfen sef, rhannu meini prawf gyda'r dysgwyr, ansawdd y cwestiynau neu siarad, defnyddio ac ansawdd yr adborth ac yn olaf hunan asesu ac asesu cyfoedion (Llywodraeth Cymru, 2010). Trwy ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu, mae athrawon yn gallu gweld pa mor effeithiol yw eu dysgu ac addasu gwrsi neu ddeunyddiau yn dilyn yr asesu felly maent yn addas ar gyfer pob disgybl yn y dosbarth (Donaldson, 2015).

Cwestiynu

05 January 2020 18:48

Mae yna nifer o ddulliau gwahanol a ddefnyddiwyd er mwyn asesu ar gyfer dysgu, a fydd pob un o'r dulliau yma yn cael eu defnyddio er mwyn darganfod gwybodaeth wahanol (Llywodraeth Cymru, 2010). Un dull asesu ar gyfer dysgu sy'n cael ei ddefnyddio llawer yw cwestiynu. Er mwyn i'r dull cwestiynu i fod yn effeithiol mae'n hanfodol bod athrawon yn cynnig digon o amser i'r disgyblion i feddwl am ateb, yn lle aros llai nag eiliad fel mae athrawon yn tueddu gwneud. Dylai'r cwestiynau helpu'r disgyblion i gael gwell dealltwriaeth o'r gwaith a hefyd mae defnyddio'r rheol 'dim dwylo' yn helpu dealltwriaeth pob disgybl gan nad ydynt yn gwybod pwy fydd yn ateb y cwestiwn (Black et al., 2004, tud 12-13). Nodwyd Llywodraeth Cymru (2010) bod strategaeth ping pong yn ehangu ar faint mae disgyblion yn dysgu oherwydd mae'r dull yn annog pob disgybl i feddwl am ateb gan fod y dull yn cynnwys pob disgybl.

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a cwestiynau allweddol)	Taigau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys grŵpiau lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau a dygu blaenorol)	- Cwestiynu – 'Beth ydynt yn creu ar gyfer y ffair Nadolig? Pa fath o bethau Nadoligaidd allwn ni rhoi ar ein bisgedi?' - Adolygu berfau gorchmynnol 'wch' a beth ydynt yn meddwl (ffyn lolipop) – 'Os mae berf yn gorffen gyda 'wch' beth oes rhaid i ni gofio? Ydych chi'n gallu cofio unrhyw ferfau gorchmynnol?' - Cyflwyno berfau gorchmynnol ar gyfer creu bisgedi – defnyddio pwynt pŵer efo lluniau e.e. bowlen = rhowch yn y bowlen, rholbren = rholiwrch y toes a.y.y.b - Cyflwyno symudiadau i gyd-fynd a'r berfau gorchmynnol cyfarwyddiadau	- Ateb cwestiynau am y ffair Nadolig – strategaeth ping pong i rannu syniadau o beth allwn roi ar fisedi - Plant i ddweud beth yw berf orchmynnol (siarad efo partner siarad) – asesu ffurfiannol - Gwneud symudiadau'r strategaeth drama	- Ffyn lolipop - Pwynt pŵer
Sesiwn Gloi	• Cwestiynu'r grŵpiau – 'beth oeddech chi wedi gwneud y sesiwn yma? Pwy sy'n gallu rhoi esiampl o ferf orchmynnol ar gyfer coginio? Pwy sy'n gallu dweud beth yw offer/cynhwysion coginio?...' • Defnyddio'r dis cwestiynu • Gofyn i'r plant i wneud y symudiadau o'r strategaeth drama • Llinell ffawd i gynnig syniadau o gynhwysion/offer/berfau gorchmynnol	• Plant i rhoi esboniad bach o'r dasg – rhoi enghraifft o ferf orchmynnol • Ateb cwestiynau o'r dis • Asesu ffurfiannol; 1. Dis 2. Llinell ffawd	• Dis • Targed iaith – treigladd meddal ar ôl 'ar'

Yn ystod gwrs thema creu bisgedi Nadoligaidd (adrannau uchod), gyda dosbarth Blwyddyn 1 roeddwn i wedi cynnwys amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu (mewn coch). Y prif strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiais oedd cwestiynu, ping pong a ffyn lolipop. Nodwyd Llywodraeth Cymru (2010) os bydd athro yn gofyn cwestiwn o ansawdd uchel, mae'r disgyblion yn gallu cynnig ateb a thrafodaeth o ansawdd uchel. Ceisiais i wneud hyn yn ystod y wers yma. Darganfyddiais i roedd y strategaeth ping pong yn effeithiol iawn wrth gwestiynu oherwydd roedd y plant yn awyddus i ateb cwestiwn felly roeddent yn gallu cael tro i dderbyn a bwrw'r ping pong ffug. Trwy ddefnyddio'r strategaeth ping pong roedd blant ni fydd fel arfer yn ateb cwestiwn os oedd rhaid iddynt roi llaw lan yn ateb cwestiynau, felly roedd hyn yn hynod o fuddiol. Pan fyddaf yn defnyddio'r strategaeth yma yn y dyfodol, byddaf yn atgyfnerthu bod ddim angen ail-adrodd atebion roedd plant arall wedi cynnig yn flaenorol oherwydd roedd nifer o'r plant yn rhoi'r un ateb gan hynny oedd yn y peth cyntaf roeddent yn meddwl am. Hefyd byddaf yn sicrhau bod y dosbarth yn gwrando ar y plentyn oedd yn cynnig ateb er mwyn helpu osgoi ail-adrodd a hefyd oherwydd gall y plentyn rhoi syniadau newydd i'r disgyblion arall.

Ffyn lolipop

05 January 2020 18:53

Mae ffyn lolipop yn ddull asesu ar gyfer dysgu arall sy'n ddefnyddiol iawn. Efo'r dull yma mae gan bob plentyn ffyn lolipop ac mae pob ffyn yn cael eu rhoi i mewn i ryw fath o bot efo'r enw yn wynebu i lawr. Bydd yr athrawes wedyn yn pigo un o'r ffyn lolipop a bydd y plentyn sydd wedi cael ei ddewis yn ateb y cwestiwn (Hymer et al., 2018, tud. 154-155). Trwy ddefnyddio'r strategaeth yma, fe arfer mai pob plentyn yn ceisio ateb y cwestiwn er ni fyddent yn ateb os oedd rhaid iddynt godi llaw i ateb. Hefyd, mae ffyn lolipop yn stopio'r un plant rhag ateb pob cwestiwn oherwydd mae'r plant swil hefyd yn cael y cyfle (Harrison a Howard, 2009, tud. 13).

Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	- Cwestiynu os yw'r disgyblion yn gallu cofio beth yw ansoddeiriau a berfau gorffennol – cysylltu â dysgu blaenorol – e.e. 'beth yw ansoddair? Pa fath o ansoddair gallwch chi ddefnyddio er mwyn disgrifio coeden? Pwy sy'n cofio beth yw'r ferf gorffennol am weld?' - Cyflwyno a chwarae gêm beth sydd ar goll (atalnodi) - Atgyfnerthu/cwestiynu beth yw pethau pwysig yw gofio wrth ysgrifennu – e.e. 'beth yw'r pethau pwysig mae'n rhaid i ni gynnwys ym mhob brawddeg?' - Cwestiynu beth mae'r plant yn cofio gweld/clywed/arogli yn Sain Ffagan – i helpu i baratoi a rhannu syniadau fel paratoad i ysgrifennu/gan rhoi trefn ar	- Plant i ddweud beth yw ansodderiau a berfau gorffennol – meddwl am frawddeg (siarad efo partner siarad) - Chwarae gêm gan dod lan at flaen y dosbarth i rhoi'r ateb cywir - Dweud/creu MPLI ysgrifennu - Rhoi enghreifftiau o frawddegau atgofion trip	- Pwynt pwer gêm beth sydd ar goll Ffyn lolipop
--	---	---	---



	hatgofion trip (pêl-fasged, ping-pong, ffyn loli)	
--	--	--



Yn ystod gwers iaith ysgrifennu atgofion defnyddiais i ffyn lolipop (gweler uchod). Dwedwyd Llywodraeth Cymru (2010) bod defnyddio ffyn lolipop yn arwain at atebion o well ansawdd oherwydd caiff y ffyn ei ddewis ar hap felly mae gan y disgyblion gwell dealltwriaeth o beth sy'n cael ei drafod a'r atebion. Wrth ddefnyddio ffyn lolipop yn ystod y wers, roedd dealltwriaeth yr holl ddosbarth o'r gwaith wedi gwella. Digwyddodd hyn oherwydd roedd y disgyblion wedi cynnig amrywiaeth o atebion oherwydd roeddent yn gwrando ar beth oedd plant arall yn ateb ac wedyn yn meddwl am rywbeth arall. Trwy ddefnyddio'r strategaeth yma roeddwn yn gallu cysylltu'r gwersi efo gwaith blaenorol ac asesu os oedd y plant yn cofio ac yn deall beth oeddent wedi dysgu yn yr wythnosau cyn. Efallai wrth ddefnyddio ffyn lolipop yn y dyfodol bydd rhaid sicrhau bod pawb yn gwrando ar y cwestiwn neu'r atebion oherwydd roedd ambell ddisgybl yn ail-adrodd ateb neu yn rhoi ateb i gwestiwn arall. Gallai

hyn wedi digwydd oherwydd roeddent yn poeni am roi ateb anghywir os maent yn ddisgybl swil ni fydd wedi cynnig ateb mewn sefyllfa dwylo i fyny. Hefyd, bydd rhai sicrhau bod y plant yn aros i'w ffyn lolipop cael ei ddewis cyn rhoi ateb oherwydd yn syth ar ôl i rai plant gwybod yr ateb roeddent yn rhoi ei llaw i fyny neu yn gweiddi mas.

Creu meini prawf llwyddiant

05 January 2020 18:59

Mae annog disgyblion i greu meini prawf llwyddiant ei hun. Os mae'r plant yn helpu creu'r meini prawf llwyddiant mae'n gallu helpu gwella eu dealltwriaeth o'r gwaith byddent yn gwneud (Llywodraeth Cymru, 2013). Trwy gael y disgyblion i greu meini prawf llwyddiant eu hun mae'n bosib bydd y plant yn deall unrhyw adborth maent yn derbyn ar ei gwaith a'i helpu i asesu gwaith cyfoedion neu hunanasesu (Llywodraeth Cymru, 2010). Mae deilliant 6 yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn nodi dylai plant cymryd rhan yn y broses o greu meini prawf llwyddiant gan gael y cyfle i gytuno ar beth sy'n cael eu cynnwys ynddi (Llywodraeth Cymru, 2015).

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	- Cyflwyno beth yw ansoddair – Pwerbwynt lluniau – gofyn iddynt i ddisgrifio/ defnyddio ansoddeiriau wedyn i'w ddisgrifio - Gwneud engraifft brawddeg "Uh oh mae Miss Elliott wedi gwneud camgymeriad" – Beth ydy Miss Elliott wedi anghofio wrth ysgrifennu brawddeg. e.e gwelais i robin goch bach . (Brawddegau syml) Dyma ble bydden yn adolygu a chreu MPLI ysgrifennu – plant yn bwydo hi sydd yn gret.	- Edrych ar lun a'u ddisgrifio (partneriaid siarad i ddisgrifio'r llun a casglu syniadau – ffyn loliop) Plant i greu MPLI ysgrifennu wrth cywiro ac adnabod beth sydd ar goll yn brawddegau Miss Elliott.	- Pwerbwynt gyda lluniau i ddisgrifio (Falle 3 llun sy'n hawdd i ddisgrifio e.e gwyneb? Coeden hydrefol?) - Cywiro brawddeg

Yn ystod gwers iaith ar ferfau gorffennol (gweler uchod) roedd y disgyblion wedi creu meini prawf llwyddiant ar gyfer ysgrifennu brawddegau syml. Yn ystod y cyfnod agoriadol roedd y plant wedi creu meini prawf llwyddiant ar gyfer ysgrifennu trwy nodi beth oedd y pethau pwysig i gofio ym mhob brawddeg. Roedd annog y plant i greu'r meini prawf llwyddiant wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y wers os roeddwn i'n gofyn iddynt beth oedd y pethau pwysig oedd rhaid iddynt gynnwys yn ei ysgrifennu roeddent yn gallu enwi popeth o'r meini prawf llwyddiant. Darganfyddais trwy gael y plant i greu'r meini prawf llwyddiant roeddent yn gallu hunanasesu eu gwaith a'r pethau pwysig oeddent wedi anghofio cynnwys yn eu hysgrifennu. Er hynny, gweithiodd y strategaeth yma yn llai effeithiol efo'r plant is eu gallu oherwydd nad oeddent wedi cynnig llawer o syniadau am beth i roi yn y meini prawf llwyddiant ac felly nad oedd ganddynt ddealltwriaeth lawn o beth oedd y pethau pwysig i gofio o'r meini prawf llwyddiant.


Llenyddiaeth

05 January 2020 19:01

Nodwyd Kelly a Stead (2013, tud. 1) bod cydymffurfio a chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn helpu'r plant i ddeall y byd go iawn maent yn byw ynddi. Wrth addysgu gwersi trawsgwricwlaidd mae'n bosib i'r plant defnyddio a gwella dealltwriaeth o sgiliau roeddent wedi dysgu yn ystod gwersi iaith neu fathemateg pur o fewn sefyllfaoedd neu wersi gwahanol (Barnes, 2015, tud. 11). Mae dogfen Ddyfodol Llwyddianus Donaldson (2015) yn nodi dylai plant cael digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i lefelau gallu uchel trwy gael digon o gyfleoedd i'w gwella ac ymestyn y sgiliau ar draws y cwricwlwm. Trwy addysgu gwersi trawscwricwlaidd, mae'n bosib bydd cymhelliad y disgyblion yn cynyddu oherwydd mae'r sgiliau yn dod yn gysylltiedig efo phethau sy'n ddiddorol i blant ac maen nhw'n gallu eu cysylltu â phethau bywyd go iawn (Parker, Heywood a Jolley, 2012). Trwy ddysgu gwersi trawscwricwlaidd mae plant yn gallu gweld bod yna perthynas rhwng y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad yn lle gweld pob un fel rhywbeth ar wahân. Hefyd, mae dysgu gwersi trawscwricwlaidd yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion dysgu am fwy o bethau sydd yn y cwricwlwm oherwydd gall un sgil o wers mathemateg neu iaith bod yn berthnasol i nifer o destunau o fewn y cwricwlwm (Johnston, 2011, tud. 53). Nodwyd Hayes (2010) trwy addysgu'r cwricwlwm yn ffordd trawscwricwlaidd mae'r disgyblion yn debygol o ddysgu yn ffordd holistaidd oherwydd maent yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng y wahanol meysydd dysgu a phrofiad. Dwedwyd Peterson a Rochwerger (2006) bod gwersi trawscwricwlaidd llythrennedd yn helpu disgyblion i feddwl am beth maent wedi dysgu yn wersi iaith flaenorol a'i ddeall yn well trwy'r cyfle i'w ddefnyddio mewn sefyllfaoedd neu wersi gwahanol. Trwy wneud gwersi rhifedd trawscwricwlaidd, mae'n bosib i'r plant gweld bod yna cysylltiadau rhwng y gwaith a'r sgiliau maent yn dysgu yn ystod gwersi mathemateg a'r themâu maent yn dysgu am yn y meysydd dysgu a phrofiad arall (Volk et al, 2017). Nodwyd Llywodraeth Cymru (2019) bod cyfrifoldebau trawscwricwlaidd cymhwysedd digidol yn fwyfwy pwysig er mwyn ehangu ar a gwella sgiliau cyfathrebu, llythrennedd ac iaith.

Llythrennedd

05 January 2020 19:04



Roedd y wers ar ddiogelwch Noson Tân Gwylt (gweler uchod) yn un trawscwricwlaidd oherwydd roedd gan y plant y cyfle i ddefnyddio beth oeddent wedi dysgu yn ystod gwrs iaith pur. Yn ystod y wers roedd rhaid i'r plant defnyddio berfau gorchmynnol am reolau i ddilyn ar Noson Tan Wylt. Darganfyddais ar ddiwedd y wers roedd dealltwriaeth y disgyblion am beth oedd berf orchmynnol oherwydd roeddent nawr yn ysgrifennu'r geiriau yn wers a sefyllfa wahanol. Hefyd, dangosodd y wers yma roedd y plant yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng y berfau gorchmynnol dysgon nhw yn ystod gwrs iaith a rhywbeth go iawn oedd yn digwydd ar y pryd oherwydd roedd mwyafrif o'r plant yn mynd i weld arddangosfeydd tan wyllt pan oeddent yn gwneud y gwaith. Er hynny, nad oedd gan y grwpiau is eu gallu llawer o ddealltwriaeth o'r gwaith iaith oherwydd wrth iddynt gynnig syniadau am reolau roeddent yn anghofio bod rhaid defnyddio berfau gorchmynnol wrth ysgrifennu'r rheolau diogelwch. Os byddaf yn gwneud y dasg yma eto byddaf yn adolygu'r gwaith o'r wers iaith yn fwy o ddyfnder efo'r grwpiau is eu gallu er mwyn sicrhau roeddent yn deall y gwaith cyn gwneud y gwaith trawscwricwlaidd.

Cymhwysedd digidol

05 January 2020


19:08



Yn ystod gwers atgofion trip (gweler uchod) roedd y disgyblion yn defnyddio ipads er mwyn ysgrifennu rhestr o'u hatgofion. Wrth gwblhau'r dasg, roedd y plant yn cofio roedd rhaid i'r berfau gorffennol grofen efo 'ais' felly pan welon nhw'r lluniau oedd o dan deitl y colofnau dwedon nhw'r ferf gywir gan gofio i'w diweddu efo 'ais'. Darganfyddais roedd y plant yn y grwpiau uwch eu gallu yn annibynnol wrth ddefnyddio'r ipads er mwyn llenwi'r colofnau al ôl i fi dweud wrthynt beth i wneud y tro cyntaf. Hefyd, llwyddodd y plant yn y grwpiau is eu gallu i ddefnyddio'r ipads gyda chymorth a gwella eu sgiliau cymhwysedd digidol trwy dderbyn cymorth. Efallai gallaf wneud i'r disgyblion sydd efo dealltwriaeth uwch o sut i ddefnyddio'r dechnoleg i greu ac enwi'r colofnau er mwyn ehangu eu sgiliau. Byddaf yn sicrhau bod gan y disgyblion is eu gallu gwell dealltwriaeth o'r rhaglen maent yn defnyddio trwy annog nhw i'w ddefnyddio'n fwy a trwy wneud iddynt wneud mwy o'r camau sylfaenol yn annibynnol, fel gwasgi ar y symbol adio i ychwanegu rhywbeth newydd.

Cymhwysedd digidol

05 January 2020 19:09



Yn ystod gwers thema ar drefnu cyfarwyddiadau creu bisgedi, defnyddiodd y plant rhaglen Google slides ar ipads y dosbarth (gweler uchod). Wrth wneud y dasg yma sylweddolais roedd y plant mwy abl eu gallu yn annibynnol wrth gymryd y camau i dynnu llun ac wedi i ysgrifennu'r ferf orchmynnol o dan y llun. Hefyd, roedd y plant yn amlwg yn ymwybodol roedd rhaid iddynt ysgrifennu berfau oedd yn gorffen efo 'wch' ar ôl gwers iaith flaenorol ble ddysgon nhw beth oedd berfau gorchmynnol. Wrth gwblhau'r dasg yma llwyddodd y disgyblion i weld roedd cysylltiad rhwng y gwaith iaith berfau gorchmynnol a bywyd go iawn trwy goginio a defnyddio technoleg maent yn defnyddio'n ddyddiol. Efallai gallai wedi annog y plant uwch eu gallu i ysgrifennu'r cyfarwyddiadau fel brawddegau yn lle ddim ond y ferf orchmynnol iddynt allu gwneud fwy o gysylltiad rhwng y holl waith iaith a'r cymhwysedd digidol.

Llenyddiaeth

05 January 2020 19:10

Dwedodd Donaldson (2015, tud. 67) bydd gan bob disgybl amrywiaeth diddordebau a phrofiadau, felly o ganlyniad i hyn bydd gan bob disgybl ffordd unigryw o wneud gwaith. O ganlyniad i hyn, dylai athrawon dewis adnoddau a thasgau sy'n gynnig ychydig o ryddid i blant dewis profiadau sydd yn ddiddorol iddynt. Nodwyd Hattie (2012, tud. 42) bod rhaid i athrawon bod yn ymwybodol o beth yw dealltwriaeth o wybodaeth a phrofiad y disgyblion o wersi blaenorol cyn gallu cynllunio unrhyw wersi. Mae gwybodaeth flaenorol plant yn effeithio sut a pa mor gyflym mae plant yn gallu gwneud cynnydd yn eu haddysg, felly mae'n hynod o bwysig bod athrawon yn parhau i adeiladu ar wybodaeth er mwyn helpu'r plant i allu symud ymlaen a dysgu gwybodaeth o lefel uwch (Steedle a Shavelson, 2009).

Nodwyd adroddiad ESTYN (2019) bod rhoi amser i blant i ddysgu yn annibynnol yn gallu bod yn effeithiol oherwydd gallent ddewis tasgau sy'n adeiladu ar wybodaeth flaenorol y maent yn credu bydd yn ddiddorol neu yn hwyl i wneud. Trwy osod tasgau sy'n adeiladu ar wybodaeth neu brofiad blaenorol, bydd y plant wedyn yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng y wybodaeth flaenorol a'r wybodaeth newydd byddent yn dysgu wrth gwblhau'r dasg ac felly ei ddeall yn well (Wetzeles, Kester a van Merriënboer, 2011). Mae'n hynod o bwysig bod yr adnoddau mae athrawon yn dewis defnyddio yn ystod gwersi wedi eu dewis yn ddoeth er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn hybu dysgu o safon uchel (ESTYN, 2019).

Adnoddau

05 January 2020


19:15



Yn ystod gwrs iaith roeddwn i wedi gosod tasg annibynnol ble roedd y disgyblion yn chwarae rôl ditectifs (gweler uchod). Llwyddodd y dasg yma i ennyn diddordeb y plant oherwydd roedd ganddynt yn defnyddio adnoddau oedd yn cysylltu'r dasg efo bywyd go iawn fel chwyddwydr a lluniau o bethau oedd yn gyfarwydd i'r plant fel teganau, bwyd ac anifeiliaid. Helpodd y dasg i ddatblygu sgiliau llafar y holl ddosbarth oherwydd roedd rhaid iddynt ddefnyddio berfau gorffennol ac ansoddeiriau er mwyn disgrifio i'w bartner beth welant nhw yn y lluniau. Darganfyddais adeiladodd y dasg ar wybodaeth flaenorol y disgyblion oherwydd cafon nhw nifer o wersi oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio berfau gorffennol ac ansoddeiriau, ond wrth wneud y dasg yma dechreuodd y plant ehangu ar eu defnydd o ansoddeiriau. Er hynny, credaf nad oedd y dasg yma mor llwyddianus efo'r plant is eu gallu oherwydd nad oeddent yn gallu meddwl am ansoddeiriau newydd i ddefnyddio felly roeddent yn ailadrodd eu hun. O ganlyniad roedd y grwpiau is eu gallu yn diflasu efo'r dasg felly efallai roedd e'n ychydig rhy heriol iddynt.

Ennyn diddordeb

05 January 2020 19:16



Datrys problemau geiriol bondiau rhif

Mae gan Rhian 3 bloc. Mae angen 10 bloc arni i adeiladu twr. Sawl bloc arall sydd angen ar Rhian?

Mae Rhys wedi ennill 16 marblis. Sawl marblis sydd angen ar Rhys i gyrraedd 20?

Mae afal yn costio 20c ond dim ond 14c sydd gan Grace. Sawl ceiniog sydd angen ar Grace i 20c?

Mae Tomos wedi ennill 80 pwynt dojo. Sawl dojo sydd angen ar Tomos i gyrraedd 100?


Roedd gan Ann 20 darn lego and rhoddodd 6 darn lego i Twm. Sawl darn lego sydd gan Ann nawr?

Mae Huw wedi cynllio £100. Gwariodd £30 ar drainers newydd lliwgar. Faint o arian sydd ar ol gan Huw?

Wrth baratoi taflennu gwaith ar gyfer gwers mathemateg ar fondiau rhif (gweler uchod) roeddwn i wedi cysylltu'r cwestiynau efo profiadau blaenorol a bywyd go iawn y disgyblion. Wrth greu taflennu gwaith oedd yn berthnasol i'r plant roeddwn i wedi llwyddo i ennyn eu diddordeb yn cwblhau'r dasg. Roedd hyn yn amlwg oherwydd roedd y plant wedi cwblhau heriau ac wedyn roedd ambell ddisgybl wedi gofyn i barhau i wneud heriau a hefyd creu cwestiynau eu hun. Er roedd y dasg yma yn llwyddianus roedd rhai disgyblion cael llawer o drafferth i weithio allan beth oedd y cwestiwn yn gofyn iddynt wneud oherwydd roedd y gwrthrychau oedd yn gyfarwydd iddynt o'r cwestiwn, fel pwyntiau dojo, yn tynnu eu sylw i ffwrdd o'r rhan mathemateg o'r cwestiwn. Efallai yn y dyfodol gallai creu cwestiynau syml ar gyfer dechrau'r daflen gwaith sydd ddim yn cynnwys unrhyw beth sy'n cysylltu â phrofiadau go iawn y plant ac wedyn ychwanegu un neu dau o gwestiynau fel sydd yn y taflenni uchod. Trwy wneud hyn mae'n bosib bydd y plant yn talu sylw ac felly deall beth oedd y cwestiynau yn gofyn ar gyfer y rhai symlach ond wedyn byddent dal yn gallu gweld sut mae mathemateg yn cysylltu â'u profiadau blaenorol a bywyd go iawn.

Adeiladu ar wybodaeth

05 January 2020 19:17



Yn ystod cyfnod agoriadol gwera iaith chwaraeodd y plant gêm atalnodi (gweler uchod). Roedd defnyddio'r gêm atalnodi fel un o'r adnoddau yn ystod y wers yn llwyddiannus iawn oherwydd roedd y gêm wedi ennyn diddordeb y dosbarth oherwydd roedd pawb eisiau cael yr atebion yn gywir. Darganfyddais roedd y dasg yma wedi gorfodi'r plant defnyddio gwybodaeth flaenorol wrth iddynt gofio meini prawf llwyddiant ysgrifennu roeddent wedi creu yn wersi cyn. Hefyd, llwyddodd y dasg i adeiladu ar y wybodaeth yma wrth iddynt ddod yn fwy cyfarwydd efo sut i ysgrifennu brawddegau llawn yn gywir, felly roeddent yn gallu dechrau hunanasesu eu gwaith ysgrifennu i raddau. Er hynny, cafodd rhaid disgyblion trafferth efo adnabod beth oedd ar goll yn y brawddegau, felly efo'r disgyblion yma gallaf wedi cwestiynu pam oeddent wedi rhoi ei ateb er mwyn helpu nhw cael gwell dealltwriaeth o beth yw'r elfennau pwysig o frawddegau a sut i'w adnabod yn ddarnau ysgrifenedig.

Myfyrdod beirniadol

05 January 2020 19:18

Ar ôl ystyried llenyddiaeth am sut i weithredu'r strategaethau er mwyn dilyn yr egwyddorion addysgegol sydd o dan sylw o fewn yr aseiniad yma, sylweddolais er llwyddodd y strategaethau gallaf eu gwneud yn fwy effeithiol. Helpodd y strategaethau asesu ar gyfer dysgu i weld dealltwriaeth y dosbarth cyn, yn ystod neu ar ôl gwers (Hattie, 2012). Yn y dyfodol byddaf yn sicrhau bod yr strategaethau yn fwy ddefnyddiol ar gyfer pob disgybl trwy ei symleiddio a'i addasu. Hoffwn i gyflawni mwy o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd oherwydd maent yn helpu dealltwriaeth y blant o'r gwaith a'i gysylltu a bywyd go iawn (Barnes, 2015). Sylweddolais roedd yr adnoddau a tasgau roeddwn i'n ddewis yn hollol bwysig i ennyn diddordeb oherwydd maent yn helpu'r plant i symud ymlaen yn ei dysgu (Steedle a Shavelson, 2009). Yn y dyfodol, gallaf sicrhau bod unrhyw gemau byddaf yn defnyddio yn cynnwys ambell cwestiwn symlach sy'n fwy addas ar gyfer plant is eu gallu oherwydd cafon nhw traferth deall a ateb y cwestiynau.

Barnes, J. (2015). *Cross-Curricular Learning 3-14*. Croydon: SAGE.

Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B. a Wiliam, D. (2004). Working Inside the Black Box: Assessment for Learning in the Classroom. *Phi Delta Kappan*, 86(1), pp.8-21.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru*. [Ar lein] Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> [Darllenwyd 18 Rhagfyr. 2019].

ESTYN. (2016). *A report on [redacted]* [Ar lein] Ar gael yn: [https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/\[redacted\].pdf](https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/[redacted].pdf) [Darllenwyd 18 Rhagfyr. 2019].

ESTYN. (2019). *Arwain y ffordd i strategaethau newydd*. [Ar lein] Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/arwain-y-ffordd-i-strategaethau-newydd> [Darllenwyd 29 Rhagfyr. 2019].

ESTYN. (2019). *Learning through play to support independent learning*. [Ar lein] Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/learning-through-play-support-independent-learning> [Darllenwyd 28 Rhagfyr. 2019].

Harrison, C. a Howard, S. (2009). *Inside the Primary Black Box: Assessment for Learning in Primary and Early Years Classrooms*. London: GL Assessment.

Hattie, J. (2012). *Visible Learning for Teachers: Maximising Impact for Learning*. London: Routledge.

Hayes, D. (2010). The seductive charms of a cross-curricular approach. *Education 3-13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*, 38(4), pp.381-387.

Hymer, B., Lockney, K., Ewens, T., Glazzard, J. a Howard, C. (2018). *Themes and Issues in Primary Education*. St Albans: Critical Publishing.

Johnston, J. (2011) 'The cross-curricular approach in Key Stage 1', mewn Kerry, T. (gol). *Cross-curricular Teaching in the Primary School: Planning and facilitating imaginative lessons*. Oxon:Routledge.

Kelly, L. a Stead, D. (2013). *Enhancing Primary Science: Developing Effective Cross-Curricular Links*. Maidenhead: Open University Press.

Llywodraeth Cymru. (2010). *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell dosbarth*. Caerdydd. [Ar lein] Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf> [Darllenwyd 18 Rhagfyr. 2019].

Llywodraeth Cymru. (2013). *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd. [Ar lein] Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/199a18b5-672f-449b-ab04-dc0a1f58793c/asesu-ar-gyfer-dysgu-ar-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf> [Darllenwyd 18 Rhagfyr. 2019].

Llywodraeth Cymru. (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd. [Ar lein] Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/4f222e31-85c2-407b-9760-5ed8bd0b9e48/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf> [Darllenwyd 19 Rhagfyr. 2019].

Llywodraeth Cymru. (2019). *Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: - Hwb*. [Ar lein] Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> [Darllenwyd 28 Rhagfyr. 2019].

Parker, J., Heywood, D. a Jolley, N. (2012). Developing pre-service primary teachers' perceptions of cross-curricular teaching through reflection on learning. *Teachers and Teaching*, 18(6), pp. 693-716.

Peterson, S. a Rochwerger, L. (2006). Cross-Curricular Literacy: Writing for Learning in a Science Program. *Voices From the Middle*, 14(2), pp.31-37.

Steedle, J. a Shavelson, R. (2009). Supporting valid interpretations of learning progression level diagnoses. *Journal of Research in Science Teaching*, 46(6), pp.699-715.

Volk, M., Cotič, M., Zajc, M. a Istenic Starcic, A. (2017). Tablet-based cross-curricular maths vs. Traditional maths classroom practice for higher order learning outcomes. *Computers & Education*, 114, pp.1-23.

Wetzel, S., Kester, L. a van Merriënboer, J. (2011). Adapting prior knowledge activation: Mobilisation, perspective taking, and learners' prior knowledge. *Computers in Human Behaviour*, 27(1), pp.16-21.